# Trafod ac atal anifeiliaid

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â thrafod ac atal anifeiliaid.

Bydd angen i chi asesu'r risg sydd yn gysylltiedig â thrafod ac atal anifeiliaid yn arbennig yr anifail yr ydych yn gweithio gydag ef, nodi'r dulliau addas o atal a defnyddio'r dulliau hyn yn effeithiol ac yn ddiogel.

Bydd angen i chi hefyd fonitro ymateb yr anifail i drafod ac atal a chymryd y camau gofynnol os oes problem.

Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'ch cyfyngiadau eich hun a chadarnhau eich bod yn bodloni'r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol ar gyfer darparu dyletswydd gofal yn unol â deddfwriaeth bresennol iechyd a lles anifeiliaid.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer unrhyw un sydd yn trafod ac yn atal anifeiliaid.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
asesu'r risg sydd yn gysylltiedig â thrafod ac atal yr anifail a chwblhau asesiad risg, lle bo angen
2.
gweithio'n broffesiynol ac yn foesegol ac o fewn terfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad eich hun
3. cadarnhau bod eich gwaith yn cael ei wneud yn unol â chyfarwyddiadau a gweithdrefnau'r gweithle
4. gwneud eich gwaith i gyd yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
5.
gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid perthnasol, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
6.
cynnal hylendid a bioddiogelwch yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, ymarfer sefydliadol â’r ddeddfwriaeth berthnasol
7. dewis a gwisgo dillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) addas
8. dewis a pharatoi'r offer â’r cyfarpar gofynnol ar gyfer trafod ac atal anifeiliaid yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisi sefydliadol
9. dewis dull o drafod ac atal sydd yn addas ar gyfer yr anifail perthnasol, gofynion yr anifail â’r rheswm dros drafod, er mwyn lleihau'r risg i'r anifail, i chi eich hun a'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
10. archwilio a pharatoi'r amgylchedd cyn trafod yr anifail fel bod y risg i'r anifail, i chi eich hun â’r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, yn cael eu lleihau
11. sicrhau bod awdurdodiad wedi cael ei roi i'r anifail gael ei drafod a'i atal gan y ddefnyddio'r dull dewisol
12.
mynd at yr anifail mewn ffordd fydd yn galluogi cydweithredu a lleihau trallod
13.
trafod ac atal yr anifail mewn ffordd nad yw'n peryglu lles yr anifail, yn osgoi ymddygiad sydd yn achosi pryder o ran lles ac yn cynnal iechyd a diogelwch

14. monitro ymddygiad yr anifail ac addasu'r dull o drafod ac atal mewn ymateb i adweithiau'r anifail
15. sicrhau bod iechyd a lles yr anifail yn cael ei gynnal drwy'r amser a bod y broses yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth lles anifeiliaid berthnasol
16. gwybod pryd y gallai ymddygiad ddangos na ddylech barhau i drafod ac atal yr anifail
17. cael cymorth os oes perygl i'r anifail, i ddiogeledd neu i iechyd a diogelwch
18. cwblhau cofnodion fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich cyfrifoldebau proffesiynol a therfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2. pwysigrwydd cwblhau'r gweithgaredd yn unol â chyfarwyddiadau a gweithdrefnau'r gweithle
3. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
4. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid perthnasol a deddfwriaeth yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
5. st i nodi sefyllfaoedd lle nad yw'n ddiogel neu'n addas i berson fynd at, trafod neu atal anifail heb gymorth
6. y math o ddillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
7. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch â’r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
8. 
pam y gall fod angen trafod ac atal anifeiliaid a sut gallai hyn effeithio ar y dull a ddewisir
9. 
y mathau o gyflyrau corfforol ac ymddygiadol a allai effeithio ar ymagwedd, trafod ac atal anifeiliaid
10. sut a ble i gael gwybodaeth am gyflwr corfforol, natur a phatrymau ymddygiad arferol anifail
11. y dulliau o drafod ac atal mathau gwahanol o anifeiliaid â’r cyfarpar angenrheidiol
12. sut i ddewis y dull addas o drafod ac atal anifail
13. sut i nodi'r risg â’r peryglon posibl sydd yn gysylltiedig â thrafod ac atal anifeiliaid a sut i leihau ac ymateb i'r rhain
14. sut dylid mynd at anifeiliaid, eu trafod a'u hatal er mwyn osgoi ymddygiad sydd yn achosi pryder o ran lles, hybu lles anifeiliaid a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun, yr anifail â’r rheiny sydd yn gysylltiedig a'ch gwaith neu wedi eu heffeithio ganddo
15. y ffactorau gwahanol sydd yn gallu effeithio ar ymddygiad anifail a beth i'w wneud os gwelir y ffactorau hyn

16. sut i adnabod ac asesu arwyddion straen, braw neu bryderon iechyd corfforol yn yr anifeiliaid sydd yn cael eu trafod a'u hatal a beth i'w wneud os cânt eu gweld
17. y cofnodion y mae angen eu cadw mewn perthynas â thrafod ac atal anifeiliaid a phwysigrwydd cwblhau'r rhain yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol

## Cwmpas/Ystod

**Cymryd y canlynol i ystyriaeth wrth ddewis dulliau o drafod ac atal anifeiliaid:**

1.
y rheswm dros drafod
2.
rhywogaeth yr anifail
3. cyflwr corfforol yr anifail
4.
natur ac ymddygiad yr anifail
5.
y risgiau cysylltiedig posibl

## Geirfa

**Deddfwriaeth gyfredol lles anifeiliaid:**

- Cymru a Lloegr, Deddf Lles Anifeiliaid
- Yr Alban, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Gogledd Iwerddon, Deddf Lles Anifeiliaid

# Trafod ac atal anifeiliaid

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | O29NCU115 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Arweinydd Tîm, Gofal anifeiliaid, Rheolwr Cyfleuster Anifeiliaid, Technolegydd Trwyddedig Anifeiliaid, Uwch Dechnolegydd Anifeiliaid |
| **Cyfres/Set** | Gweithgareddau Milfeddygol Para-broffesiynol, Technoleg Anifeiliaid, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | anifail; ataliaeth; trafod; iechyd; lles; ymddygiad |